GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru Public Health Wales

In conjunction with all of the Wales Regional Safeguarding Boards

## PRUDiC

# Gwybodaeth i Weithwyr Proffesiynol



**PRUDiC (Ymateb Gweithdrefnol i Farwolaeth Sydyn Annisgwyl) yw'r tîm aml-asiantaeth sy'n ymateb i farwolaeth annisgwyl plentyn neu berson ifanc ac mae'n berthnasol i bob marwolaeth annisgwyl plentyn hyd at ei ben-blwydd yn 18 oed.**

Dyma'r broses sy'n disgrifio sut mae'n rhaid i weithwyr proffesiynol yng Nghymru ymateb i farwolaeth annisgwyl plentyn, er mwyn sicrhau bod yr ymateb hwn yn ddiogel, yn gyson ac yn sensitif i anghenion y teulu mewn profedigaeth.

Mae'n bwysig bod holl farwolaethau ymhlith plant yn cael eu hadolygu'n ofalus fel y gallwn ddysgu cymaint â phosibl, i geisio atal marwolaethau yn y dyfodol, ac i gefnogi teuluoedd, gofalwyr a ffrindiau.

Diffinnir marwolaeth annisgwyl fel un na ddisgwyliwyd o fewn y 24 awr flaenorol, neu cyn y digwyddiad a arweiniodd at y farwolaeth, er enghraifft damwain ffordd neu farwolaeth trwy hunanladdiad ac sy'n digwydd yn yr ysbyty neu allan ohono.

Mae Marwolaethau Annisgwyl yn cael eu hadrodd i'r crwner er mwyn penderfynu a oes angen archwiliad post mortem neu a fydd angen agor cwest neu ymchwiliad.

Mae'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol yn monitro'r prosesau PRUDiC a gychwynnir yn eu rhanbarthau ac yn sicrhau bod yr ymateb gweithdrefnol yn cael ei ddilyn hyd at ei gwblhau.

Mae'r Rhaglen Adolygu Marwolaethau Ymhlith Plant (CDRP) yn cael gwybodaeth gan y broses PRUDiC i'w galluogi i bennu patrymau a thueddiadau mewn marwolaethau plant yng Nghymru ac i nodi cyfleoedd i atal marwolaethau.

Mae'n bwysig nodi bod y broses hon yn cael ei dilyn ar gyfer pob marwolaeth annisgwyl plentyn yng Nghymru.

## Beth fydd yn digwydd:

- Bydd y plentyn yn cael ei gludo i'r ysbyty (oni bai ei fod eisoes yn yr ysbyty) lle bydd meddygon a'r heddlu yn gofyn rhai cwestiynau am yr hyn sydd wedi digwydd ac yn archwilio'r plentyn.
- Bydd gweithiwr allweddol yn cael ei ddyrannu i'r teulu ar yr adeg hon (gall hyn newid ar ôl y cyfarfod PRUDiC cyntaf).

Mae cyfres o gyfarfodydd PRUDiC a fydd yn cynnwys gweithwyr iechyd, yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol ac addysg ac ati a byddent yn rhannu cymaint o wybodaeth â phosibl am y plentyn, ei farwolaeth, pam y digwyddodd ac unrhyw faterion a allai atal marwolaethau pellach.

- Cam un (rhwng 0 i 5 diwrnod fel arfer): Cyfarfod Rhannu Gwybodaeth a Chynllunio.
- Cam dau (rhwng 5 i 28 diwrnod fel arfer): Cyfarfod Trafod Achos.
- Cam tri (fel arfer o fewn 12 mis unwaith y bydd canlyniadau post mortem terfynol ar gael): Cyfarfod Adolygu Achos.

Dylai unigolion nad ydynt fel arfer yn mynychu cyfarfodydd PRUDiC gael eu paratoi ymlaen llaw i sicrhau bod lefel o ymwybyddiaeth o gynnwys tebygol a phroses cyfarfodydd PRUDiC a gall rhai o'r materion a drafodir fod yn ofidus.

Nid yw teuluoedd yn gallu mynychu'r cyfarfodydd ond bydd eu gweithiwr allweddol yn rhannu gwybodaeth gyda nhw ac yn eu cyfeirio at wasanaethau cymorth.

Mae marwolaeth unrhyw blentyn yn drasiedi i'r teulu a'r gymuned ehangach, ac mae cymorth ar gael i'r teulu a gweithwyr proffesiynol. Gweler y wefan isod am fwy o wybodaeth am PRUDiC a'r cymorth sydd ar gael.
**phw.nhs.wales/PRUDiC**